

Papur Pawb

Pris: 40c

Tachwedd 2006

Rhif 323

Diwedd Cyfnod

Mae Pennaeth Ysgol Gymunedol Tal-y-bont mewn ymgynghoriad â chyngor yr Ysgol wedi gorfod gwrthod caniatâd i unrhyw un chwarae ar dir yr ysgol o hyn ymlaen. Mae wedi derbyn cyngor yr Awdurdod Addysg i wneud y penderfyniad hwn ar ôl i sawl achos diflas ddiwydd ar ôl oriau'r ysgol. Bu'n rhaid galw'r heddlu ar sawl achlysur ac fel mae nhw yn dweud, "Am flynyddoedd mae llawer o blant wedi cael pleser o ddefnyddio adnoddau'r ysgol ond yn ddiweddar difethwyd yr arfer yma gan nifer o unigolion yn gwneud drygioni a difrod i eiddo." Nid yw hyn yn effeithio ar drefniant y Mini Minors nac ychwaith y Clwb Ieuencid i ddefnyddio'r cae gan fod oedolion yn gyfrifol am y digwyddiadau hyn.


Anghofiwch "Fwystfil y Bont" mae "Panther Pantcoch" yn fyw ac yn iach!

O dro i dro dros gyfnod o ddwy flynedd mae rhai o drigolion Cwm Tynant wedi gweld cath fawr ddu o faint ci "Labrador". Mair Griffiths Nanty oedd y cyntaf i'w weld a hyn wrth fynd â'i hŵyr bach am dro ar hyd y ffordd at Felinfach ym mis Awst 2004. Cafodd gymaint o ofn wrth weld yr anifail fel y trodd am adre'n syth. Tua pythefnos yn ddiweddarach gwelodd Dafydd Jenkins, Penpompren anifail tebyg i gath fawr ddu ar fanc Penpompren.

Ers dechrau Mis Medi eleni mae Mina Morel, Llawr y glyn, Bontgoch ac Emyr Breese, Pantcoch wedi gweld y gath yng nghefn tŷ Pantcoch. Tua pythefnos yn ddiweddarach

gwelodd Elgan Evans, Tynant a'i ffrind Morfudd Lewis ac Aled Llyr anifail tebyg i gath fawr yng ngolau lamp rhwng Cwmere a Moelglomen.

Bythefnos yn ôl wrth deithio yn y car ger Cerrig Mawr cafodd Mair Griffiths fraw mawr pan neidiodd y gath dros y sietin yn union o flaen y car. Diflannodd wedyn i gyfeiriad yr afon a thir Penpompren. Brynhawn Gwener y 27ain o Hydref digwyddodd Mair edrych allan o ffenest llofft ei chartref a chael syndod mawr o weld y gath fawr yn gorwedd yng nghefn Werndeg yng nghefn y tŷ. Byddai'n codi bob yn hyn a hyn a neidio fel pe bai yn dal llygoden.



Emyr Breese, Pantcoch



Elgan Evans, Tynant

Disgrifia Mair yr anifail fel cath fawr ddu gyda chôt o flew yn sgleinio, corff a chynffon hir a phawennau mawr, anifail tebyg i deigar. Mae'n credu nad yw yn anifail ofnus o bobol.

Ar ôl y profiad ysgytwol yn y car cysylltodd Mair â'r heddlu a daeth DI Robyn Mason (Bryngwyn Mawr) i'w gweld. Mae'r arolygydd yn awyddus i unrhyw un sy'n gweld y gath i gysylltu ag ef ar 08453 302000.

Papur Pawb

Golygyddion Cyffredinol:	Eleri a Gwilym Huws Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion. gehpengwern@yahoo.co.uk	(01970) 832231
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis.	
Teipyddes:	Carys Briddon	
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL	
Parsel Henllys:	Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch	832295
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont	832660
Is-gadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Annwyl gyfeillion,

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â Bwrdd Rheoli'r Cwmni. Os ydych chi'n gyfarwydd a gwaith y cwmni neu os oes gennych chi ddiddordeb ym maes theatr i blant neu bobl ifanc yna beth am ystyried ymuno â ni? Mae'r cwmni yn gwasanaethu ysgolion a chymunedau yng Nghaerfyrddin, Penfro a Cheredigion. Gallwch gael rhagor o gefndir o wefan y cwmni ar

www.aradgoch.org/cymraeg.php
neu drwy ffonio 01970 617998.

Yn gywir

Arwel Jones

Cadeirydd Cwmni Theatr Arad Goch

Annwyl Olygydd,

Lansiwyd **Cymdeithas Brodwaith Cymru** yn Awst 1998 gyda'r amcan o annog, meithrin a hyrwyddo brodwaith trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae'r Gymdeithas yn trefnu cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd yn cynnwys gwahanol fathau o frodwaith. Trefnir y gweithgareddau hyn mewn ardaloedd ledled Cymru, ac nid oes angen arbenigrwydd i ymuno â'r Gymdeithas, dim ond diddordeb i hyrwyddo'r grefft trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwriedir cynnig ysgoloriaeth o hyd at £200.00 i **fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs Tecstilau mewn coleg**. I wneud cais anfonwch eich enw, cyfeiriad a manylion y cwrs at Eryl Evans, Y Ddôl, Llandre, Bow Street, Ceredigion. SY24 5BS. **Y dyddiad cau fydd 15fed Ionawr, 2007.**

Yn gywir, Eryl Evans

Holi am Wybodaeth

Yn ddiweddar, cysylltodd Mr W.T. Williams o Landudno â *Papur Pawb*, yn holi am wybodaeth. Tybed oes unrhyw un o'n darllenwyr yn gwybod a oes disgynyddion o deulu William Williams a'i fab Robert yn dal i fyw yn yr ardal? Melinwyr oeddynt, ym Melin Tre'r-ddôl, yn y cyfnod 1790 hyd 1860. Tybed hefyd a oes llun neu beintiad o'r felin ar gael?

Os oes gennych unrhyw wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i Mr Williams, cysylltwch ag Eleri a Gwilym Huws, Pengwern (manyion uchod) ac fe wnawn ninnau gysylltu ag ef.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT Cynhelir y FFAIR NADOLIG

ar
Ddydd Sadwrn, 25 Tachwedd
am 2.00 o'r gloch
Pris mynediad: £1 (yn cynnwys
te a chacen)
Plant am ddim
Amryw o stondinau/raffl
Croeso cynnes i bawb

S. F. BYRNE

Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068

M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Dyddiadur

TACHWEDD

- 12 **Bethel** 2 Parch Terry Edwards
Nasareth 2 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 10 Pryderi Llwyd Jones
Eglwys Dewi Sant
- 14 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Noson yng nghwmni Dylan o'r R.A.C.
- 19 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 2 Walford L. Gealy
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant
- 20 **Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch.** Rwth Jên a Helen. Gwneud cardiau Nadolig
- 21 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Ymarferion y Steddfod
- 23 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Eisteddfod y Sir, Coleg Llanbed
- 23 **Sefydliad y Merched, Tal-y-bont.** Prynawn 2-5 p.m. Swyddog Tân yn ein cartrefi
- 25 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Eisteddfod y Sir, Coleg Llanbed
- 26 **Bethel** 2 Parch Andrew Lenny
Nasareth 5 Tudor Davies
Rehoboth 10 Tudor Davies (C)
Eglwys Dewi Sant
- 28 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Noson Grefft yng nghwmni Rwth Jên

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

CINIO BLYNYDDOL

Nos Sadwrn, 2 Rhagfyr
yn Llety Ceiro

Cwrdd am 7.30
i fwyta am 8 y.h.

Enwau i Janet Jones
erbyn 25 Tachwedd

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT RHAGHYSBYSIAD

GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
8 p.m.
20 Rhagfyr 2006

RHAGFYR

- 3 **Bethel** 6 Gweinidog
Nasareth 10 John Tudno Williams
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant
- 5 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Canu Carolau
- 10 **Bethel** 10 Parch W.J. Edwards
Nasareth 10 W.J. Edwards (Bethel)
Rehoboth 10
Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant
- 12 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Canu Carolau
- 13 **Neuadd Goffa Tal-y-bont** 7:30 : Cwmni Theatr Bara Caws; Comedi newydd 'ACTUS REUS'
- 17 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 10 Gordon MacDonald (C)
Eglwys Dewi Sant
Bethel 6 Noson o Garolau ac eitemau gan Gymdeithasau Tal-y-bont a'r cylch
- 18 **Cylch Meithrin Tal-y-bont** Cyngerdd Nadolig 6.30 yn y Neuadd Goffa
- 19 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Parti Dolig
- 24 **Bethel** 5.30 Gwasanaeth y plant
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant
- 31 **Bethel**
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair a Beryl, gyda Ceri'n dylunio (stiwdio@ceri-talybont.com). Golygyddion rhifyn mis Rhagfyr fydd Catrin (01654 781345) a Rhian (832344). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener 1 Rhagfyr a bydd y papur ar werth yn y siopau ddydd Gwener 8 Rhagfyr.

ŴYR A WYRES

Yn Ysbyty Gwynedd, Bangor bore Llun, 30 Hydref ganwyd mab bach DEIO LLWYD, i Siriol ac Osian Edwards, Rhinog, Chwilog, a brawd bach i Elan a Hedd.

Yna, dair awr ar hugain yn ddiweddarach ar fore Mawrth 31 Hydref, ganed merch fach BECA LLWYD i Angharad a Robin Lewis Jones, Ty'n Lôn, Llanybi, Pwllheli.

Mae Taid a Mamgu, sef Hefin a Rita Llwyd, Penlôn-las, Tal-y-bont gynt wrth eu boddau.

DYMUNIADAU GORAU i

Hilda Thomas, Cwmere sydd ar hyn o bryd gyda'i merch Barbraa yn Hafod Ifan. Gwelir colled ar eich ôl i gael newyddion am ardal Bontgoch.

COFION GORAU

Cofion at Eleri James, Cwmudw; Catrin Jenkins, Ynysidiol a Caryl Jenkins, Cerrigtrane a fu mewn damwain car yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN

Pob dymuniad da i Gwenan Riding sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac i Geraint Evans, Llawrcwmbach sydd hefyd yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Owen Jenkins, Gweddynys ar gael ei ddewis yn Gapten Clwb Golff y Borth.

DYMUNIADAU GORAU

Dymuniadau gorau i Anne a Mike Moore, Bodhyfryd, Taliesin ar ôl eu llawdriniaeth yn yr ysbyty gan ddyuno gwellhad buan i'r ddau.

BAINC NEWYDD

Ar ôl aros am flwyddyn a hanner mae cymuned Ffwrnais/Eglwysfach wedi cael sedd newydd ar bwys y rhaeadr. Dinistriodd lori Co-op yr un wreiddiol ym mis Mai 2005. Ond diolch i Barry Thomas, Clerc y Cyngor Cymuned, sydd wedi bod fel terrier bach yn nychu y Co-op, mae wedi sicrhau arian i ail osod y sedd a gardd o'i hamgylch.

I ddathlu'r achlysur daeth pawb ynghyd ac Erwyd Howells, Capel Bangor gafodd y fraint o dorri'r rhuban. Yna, i ddathlu cafwyd parti yn y Ffwrnais.

ADRE O'R YSBYTY

Gwellhad buan i'r canlynol a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar: Mr Titman, Maes-y-deri; Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail; Dafydd Parry, Cwmglas, a Karen Evans, Nantlain Isaf.

Pobl a Phethe



Roedd 11 Hydref eleni yn ddiwrnod mawr i Margaret Hands, Panthaul, Tal-y-bont, gan ei bod yn derbyn yr MBE am ei chyfraniad i Ofal Cymdeithasol pan yn gweithio fel Rheolwr Gwasanaethau Oedolion. Cafodd fynd â thair ganddi yn gwmni a dewisodd dair a fu yn cyd-weithio â hi. Pwysleisiai na fyddai hi wedi ennill y wobwr yma oni bai bod ganddi dîm da o weithwyr.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn gyda theuluoedd Penrhos, Ger y Nant a Throedrhigwinau ar farwolaeth Mam, Mamgu a hen Famgu annwyl sef Mrs Margaret Williams, Cwmslaid.

CYWIRIAD

Yng Ngelli Aur mae Raymond a Brenda Jones wedi ymgartrefu ac nid ym Minffordd fel a adroddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Papur.

BECHGYN CERRIGTRANE AR FFERMIO

Braf oedd gweld y rhaglen Ffermio ar S4C nos Lun, 30ain Hydref, pryd oedd Mr Bennet Jenkins, Cerrigtrane, Dilwyn y mab, a'r ddau wŷr Eifion a Geraint yn cael eu holi mor naturiol gan un ohonom ni, sef Alun Elidyr, cyflwynydd y rhaglen.

Yr oeddynt wedi troi'n organig chwe mlynedd yn ôl, gyda'r llaeth, cig eidion du Cymreig, a'r cig oen

yn cael eu gwerthu i'r farchnad organig. Dangoswyd yn amlwg iawn fod y sustem yma yn gweithio yng Ngherrigtrane. Hyfryd oedd gweld y fferm deuluol yma yn cymeryd mantais o'r cynllun Tir Gofal a'r cyfan yn edrych mor gymen.

ANNWYL FFRINDIAU

Dowch i glywed seren lleol yn chwarae'r utgorn mewn darn gan un o gyfansoddwyr enwocaf Cymru yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth ar 2 Rhagfyr 2006 am 20:00. Y seren yw Jason Lewis o Dôl-y-bont, ger Y Borth, disgybl yn Ysgol Penweddig a'r darn yw Penillion gan Grace Williams, y Gymraes a anwyd yn Y Barri ac a fu farw yno ym 1977.

Mae'r Penillion â naw Gymreig iddynt ond wrth gwrs nid llais a glywir yn datgan y 'geiriau' ond utgorn, hynny yw mae Grace Williams yn llwyddo i greu yr ymdeimlad o lefaru neu areithio gyda 'nodau' yr utgorn.



BONTGOCH

Y Tra Pharchedig Wyn Evans, Deon Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, pregethwr gwadd eglwys Sant Pedr Elerch eleni. Hanes yn rhifyn Hydref.

Yn ogystal â Jason Lewis yn chwarae Penillion, Grace Williams cewch glywed Rhapsodi ar Thema Paganini gan Rachmaninoff a Symffoni Rhif 7 gan Dvorak.

Yn gobeithio cael eich cwmni ar y noson arbennig hon Rhys Huws

CROESO I DALYBONT!

Croeso cynnes i Natalie a Medwyn Roberts, sydd wedi symud yn ddiweddar i rif 2 Minffordd, Talybont, gyferbyn â'r ysgol. Mae Natalie yn dod yn wreiddiol o Bort Talbot, ac yn gweithio yn y Swyddfa Academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth; brodor o Flaenau Ffestiniog yw Medwyn, ac ma e'n gweithio i'r Cynllun Tir Gofal gyda'r Cynulliad. Mae'r ddau yn canmol y croeso mae pobl y pentref wedi ei estyn iddynt eisoes, a gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Sam Tilly, Fflat y Caffi, Tre'r Ddôl ar enedigaeth merch fach, Emily Jane ac hefyd i Mike a Louise, Bridge House, Tre'r Ddôl sydd wedi cael chwaer fach i Ruby, sef Kate.

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN CYFARFOD BLYNYDDOL

yn y Cartref
Nos Fercher, 15 Tachwedd
2006 am 7.30 o'r gloch
Dewch i gefnogi eich cartref
lleol.

Croeso cynnes i bawb

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Cwrdd Diolchgarwch

Ar yr 11eg o Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol yng Nghapel Bethel. Roedd plant yr ysgol i gyd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth ac roedd cynulleidfada dda yno'n gwyltio hefyd. Y gŵr gwadd eleni oedd Dennis Davies o elusen yr NSPCC a themar gwasanaeth oedd gofal a chariad. Casglom ni arian yn yr ysgol at yr NSPCC ac i'r un gymdeithas yr aeth casgliad y gwasanaeth hefyd, cyfanswm o £673.71. Bu'r gwasanaeth yn un llwyddiannus iawn eleni eto. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i bawb a fu'n ein dysgu. Diolch i'r gymdeithas rieni am addurno'r Capel.

Eilir Huws.

Bryngaer Lletyllwyd

Heddiw, sef dydd Gwener Tachwedd y 3ydd aeth dosbarth 3 am dro i weld bryngaer Lletyllwyd. Roedd y celtiaid yn arfer byw ar y bryn ger Lletyllwyd mewn bryngaer ers talwm. Mae afon yn llifo ar bwys y bryn mae llawer o goed o amgylch y bryn, roedd coed a dŵr yn bwysig iawn i'r celtiaid. Roedd blwyddyn 4 wedi esgus ymosod ar bl 3 a bl 4 enillodd. Mwynheuron ni yr ymweliad yn fawr.

Ffion ag Esther bl 4.

Pentre Bach

Buodd Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 i ddyddu am datws yn Pentre Bach. Cawsom ni sgwash a chreision yn y caffî. Gwelon ni tatws porffor a coch. Gwelon ni Sali Mali.

Seren

Stiwidio deledu

Aeth Blwyddyn 1 a 2 i stiwdio deledu y brifysgol. Gwnaethon ni rhaglen deledu gyda Elin ar myfyrwr. Cawsom kit kat a sgwash. Roedd yn rhaid i ni ganu a cyflwyno ein hunain. Roedd hi'n boeth yn y stiwdio ac roedd rhaid canolbwyntio am hir. Mwynheuais yn fawr.

Catrin

Gweithdy drama

Daeth Sue Jones Davies i'r ysgol i wneud gwaith drama gyda blwyddyn 1 a 2. Roedd angen i ni wrando'n ofalus. Gwnaethon ni waith cerfluniau gyda partner. Dangoson ni ein gwaith i bawb. Mwynheuais i ddangos fy ngwaith.

Betsan

The Iron Man

Aethon ni i Ganolfan y Celfyddydau i weld drama 'The Iron Man'. Roedd y ddrama yn eithaf ofnus. Hoffais i y darn pan ddaeth yr 'Iron Man' allan o'r ddaear.

Seren

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol yn helpu ac yn gwella'r ysgol. Ryden ni yn mynd i gael Clwb Ffrwythau yn yr ysgol. Bydd yn helpu'r plant i fwyta yn iach. Ryden ni hefyd am wneud orsaf ffrindiau fel bod pawb yn cael rhywun i chwarae efo amser chwarae. Rydyn ni newydd ethol plant newydd ar y cyngor i wneud 12 ohonom i gyd. Un peth sydd bob amser yn cael ei drafod yw baw ci. Mae yn broblem fawr yn yr ysgol.

Ardal Biosffer Dyfi

Holi barn y gymuned

Beth sydd gan rheadrau Niagara Falls ar Dyfi yn gyffredin? Heblaw am ddŵr, wyddoch chi bod y ddau le wedi ei dynodi yn Ardal Biosffer. Yn y 1970's dynodwyd rhan isaf Dyffryn, sef Cors Fochno, Ynyslas ag Ynys Hir yn Ardal Biosffer gan UNESCO (corf Addysgiadol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig).

Cynheliwyd cyfarfod yn Neuadd Talybont ar 18 Hydref er mwyn holi barn y trigolion lleol am ehangu yr Ardal Biosffer. Mae meini prawf dethol Ardal Biosffer wedi ei newid ers 1995 gan UNESCO ac ar hyn o bryd nid yw'r Ardal Dyfi yn ddigon o faint nac chwaith yn cynnwys digon o bobolgaeth. Y gobaith yw i ehangu'r ardal i'r Dyffryn gyfan drwy gefnogaeth y gymuned leol.

Beth yn union yw Ardal Biosffer felly? Tiroedd i arbrofi a dangos ffurf o gadwraeth a ddatblygiad gynladwy ar raddfa lleol ydynt. Bellach mae yna 450 o ardaloedd Biosffer mewn bron 100 o wledydd, ar Dyfi yw'r unig un yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn gryno, llefydd pwysig i bobl a natur gyd-fyw a chyd-fanteisio. Mae pob Ardal Biosffer yn wahanol ond mae pob un yn ceisio cryfhau yr economi leol drwy arbrofi, datblygu a dysgu mewn modd cynaliadwy.

Delyth Rowlands ydy'r Swyddog Cyfathrebu ar Gymuned ar gyfer y Biosffer. Dangosodd Delyth engreiffitiau llwyddiannus o sut oedd amaethwyr wedi gwella eu busnesau drwy brandio eu cynnyrch ac arbennigo mewn cadw stoc prin. Dywedodd cyd-gyflwynydd y noson Aled Griffiths, ffermwr o Gemmaes, mai cynnig cyfleuon i'r gymuned leol oedd pwrpas y dynodiad.

Trafodwyd llu gwestiynau gyda rhai yn crybwyll problemau tai haf, gwaith i bobl ifanc a chyfyngiadau pellach ar amaethwyr. Mynegwyd pryder gan rhai y byddai rhagor o 'Inspectors' yn galw, ond nid yw hyn yn rhan o'r dynodiad. Yn sgil sylw mai braint ydyw bod UNESCO yn barod i ehangu'r Ardal Biosffer yma, cawsom clywed bod cryn tipyn o sylw ar ddiwylliant o fewn yr Ardal Biosffer hyn, ac y dylem fachu ar y cyfle i ddathlu a chryfhau y diwylliant cynhenid lleol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Delyth ar 01654 703965 neu gyrrwch e-bost i delyth.richards@ecodyfi.org.uk

TYWYDD HAF 2006 - stori heb ddiwedd iddi

Wedi Gaeaf hir, braidd yn sych ond nid rhy aefol, daeth Mai gwlyb a gweddol gynnes i ben gyda pheth rhew yn y pant ar y noson olaf un. Roedd cnydau ar borfa wrth eu bodd gyda'r Gwanwyn sydyn, ond beth oedd i ddilyn? Y cwestiwn tragwyddol.

Cynnes oedd Mehefin, ar gyfartaledd 16.1°C sydd tua 1°C yn uwch na'r tueddiad, a mis sych hefyd gyda ond 23mm o law yn unig i gyferbynnu â'r 157mm ym mis Mai. Roedd garddwyr ar ben eu digon gyda courgettes a thatws cyn diwedd y mis ar ffermwyr gyda'r silwair cynnar ond roedd y gwynyn gwan yn brwydro'n galed i gadw nerth y gweithwyr lan.

Beth bynnag prif bwrpas y nodyn hwn yw i drafod gwres anarferol ganol Gorffennaf. Ar y cyfan roedd yn uchel, tua 2.5°C yn uwch na'r tueddiad ar 19.2°C - yn y gorffennol agos roedd Awst 1983 ar ei hyd yn boethach, ar flwyddyn honno arhosodd yn gynnes tan ddiwedd Medi.

Achosodd patrymau anarferol yr aer uchel iawn, y rhai sydd wedi rhoi llai o law nag arfer i ni dros y 18 mis diwethaf, dueddiad o dymheredd anghyffredin o uchel yn ystod mis Gorffennaf. Ar y 18fed torrwyd y record am y gwres uchaf yng nghylch Tal-y-bont yn y 40 o flynyddoedd o gadw record ddyddiol ddi-dor - 33.4°C. Ond ar y diwrnod canlynol recordiwyd tymheredd eithafol o 35.5°C a hwn oedd y diwrnod a dorrodd recordiau absoliwt newydd yn gyffredinol. Y tymherau hyn yw'r uchaf erioed i'w recordio ar offer sgrin lwfr mewn dros gyfnod o 150 o flynyddoedd o gasglu. Ar y llaw arall sych oedd Gorffennaf - 23mm o law yn unig - a diwedd Awst oedd hi cyn i'r pridd dderbyn digon o law i ganiatáu i blanhigion gwneud y defnydd gorau o Fedi/Hydref mwyn.

Anghofir hyn i gyd ar y dyddiau pan rydym yn profi bore oer llachar dan bwysedd uchel. Ond daw'r gyfres uchod o dywydd bendedig rhywfaint o'r teimlad o'r hyn achosodd i'n cyndeidiau ni ffynnu ar Lain Wen yn ystod y cyfnod oes efydd cynnar. Nid yw gwres eithafol Gorffennaf yn profi'n uniongyrchol y ffenomena o dwymo byd-eang, y ffenomena hyn a fydd yn debygol o greu tymheredd blynyddol is yma wrth i'r Drifft Gogledd Iwerydd lonyddi - y drifft sydd fel arfer yn cadw ein gaeafau yn fwynach. Beth bynnag, da chi daliwch yn dynn, rydym yn byw mewn cyfnod cythryblus cyn belled ag y mae'r hinsawdd yn y cwestiwn, felly pwyll piau ac ystyriwch yr hyn rydych chi'n ei wneud yn eich bywyd bob dydd.

Howard Owens

Golygydd Cyffredinol



O'r flwyddyn newydd ymlaen fe fydd Geraint Evans, Garnwen yn cymeryd drosodd fel Golygydd Cyffredinol Papur Pawb. Mae arnom ddyled sylweddol i Gwil ac Eleri Huws am wneud y gwaith am gyfnod hir o flynyddoedd ac am fod yn gefn i'r papur o'r cychwyn cyntaf. Diau y daw cyfle i ddiolch yn ffurfiol i Gwil ac Eleri rhwng nawr a'r Nadolig. Fe fydd Geraint yn cyd-weithio gyda Gwil ac Eleri ar rifynnau Tachwedd a Rhagfyr ac yn gweithredu fel Golygydd Cyffredinol o rifyn Ionawr 2007 ymlaen.

Merched y Wawr

Mae sawl aelod yn ymddangos yn fwy ystywyth yn ddiweddar wrth iddynt ddilyn cwrs Ioga dan arweiniad hwyliog a threfnus Sue Jones-Davies. Bob nos Fawrth cynhelir y dosbarthiadau yn festri glyd Rehoboth. Cafwyd ail gyfarfod y gangen ar Nos Lun, 16eg o Hydref, a threfnwyd cwis cerddorol gan y llywydd. Rhannwyd yr aelodau'n dimau a bu cryn ddyfalu wrth wrando ar yr amrywiaeth o gerddoriaeth wrth iddynt geisio dod o hyd i'r atebion.

Yna ar Nos Fercher, Tach 1af teithiodd nifer o aelodau i Fronant i ymuno â'r gangen leol o Ferched y Wawr mewn noson o arddangosfa goginio.

Bydd côr y gangen yn dechrau paratoi ar gyfer rhoi adloniant yng nghanen Llanfarian ar ddiwedd y mis – gobeithio y bydd y lleisiau mor ystywyth â'r cyrff!



PLAID CYMRU CEREDIGION
Ffair Nadolig

2.00pm, 9 Rhagfyr 2006

Canolfan Morlan, Aberystwyth

Anrhegion Nadolig Siôn Corn

Bargeinion Cacennau Stondinau amrywiol

Mynediad : £1 i oedolion; plant am ddim.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis
10y-cod4, The Talbala, MACHYNLETH
Ffôn: 01970 830 830 Cymsu
Ffôn/Ffôn: +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Y Cadeirydd, Cyng. Ellen ap Gwynn yn agor y cyfarfod trwy groesawu i chyd aelodau nos Lun olaf o fis Hydref gyda dau ymddiheuriad am fetu a bod yn bresennol. Derbyniwyd cofnodion Cyngor ddiwedd Medi fel adroddiad cywir.

Yn dilyn trafodaeth ar roi gwybodaeth am y Cyngor ar y We penderfynwyd diweddar hyn yn ôl yr angen a pharhau gyda'r trefniadau presennol.

Y mae'r Cyngor yn parhau i ohebu gyda Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir am arwydd newydd i'r pentref i'w osod ger Gwynfa. Deallwn fod prinder cyllid gan yr Adran ac felly'n gofyn i'r Cyngor Cymuned gyfrannu at y gost.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dŵr Cymru yn ymddiheuro am y problemau fu yng ngorsaf bwmpio carthffosiaeth ond erbyn hyn sydd wedi'u cywiro gyda'r gorchwylion cynnal a chadw yn awr yn ôl i'r anghenion arferol. Byddant hefyd yn edrych yn fanwl ar gyflwr Heol James cyn ystyried gwneud unrhyw waith atgyweirio.

Disgwylir cael presenoldeb aelod o'r Heddlu yn y Cyngor nesaf i drafod plismona yn y gymuned a deallwyd ganddynt na fu unrhyw ostyngiad yn y gwasanaeth hyd yma gan iddo gael ei ail strwythuro yn unol â'r fenter Plismona Bro cenedlaethol sydd yn fanteisiol i ardaloedd gwledig.

Cyhoeddwyd y cynhelir cyfarfod 'Dewch i ddweud eich dweud' dan faner Partneriaeth Strategaeth Cymunedol Ceredigion 2020 ym Morlan, Aberystwyth am 6.30 y.h. ar 15 Tachwedd a cheisio casglu gwybodaeth a barn y cyhoedd ar beth maent yn feddwl o'u cymuned. Rhoddir croeso i bawb sydd a diddordeb.

Y mae gwahoddiad eto eleni oddi wrth Adran Llwybrau'r Cyngor Sir i gyflwyno cais am gyllid i ymgymryd â gwelliannau ar lwybrau cyhoeddus yn y gymuned. Os oes unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gwybod am anghenion fyddai'n gwella cyflwr llwybr gallant roi gwybod i un o'r Cynghorwyr yn ystod y mis.

Erbyn hyn, yn dilyn llythyr cyson am arwyddion i Fedd Taliesin ger Penlôn derbyniwyd atebiad oddi wrth yr Adran Prifffyrdd yn mynegi na fyddant yn darparu arwyddion gan fod y ffordd fynediad yn anaddas a phrinder manau pasio arni ac nad oes cyfleusterau parcio ger y safle.

Yn dilyn cais blynyddol yr Awdurdod Heddlu am flaenoriaethau plismona yn y gymuned ar gyfer y flwyddyn nesaf, gofynnir roi sylw i blismona cyson i reoli ymddygiadau gwrthgymdeithasol a chadw cysylltiad gyda phlant yr ysgol â'r clwb ieuencid. Hefyd cadw rheolaeth ar yrru beiciau modur bach ar hyd ffyrdd cyhoeddus o amgylch y pentref.

Trafodwyd cais cynllunio amlinellol i godi tŷ ger Tanffordd a chais i newid defnydd tai allan Tyncae i unedau gwyliau gyda chais i godi sied fel cysgodfan i geffylau ar gae Pantgwyn, Bont-goch.

A DAVIES
TRYDANOL

Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLETH
Powys SY20 8SR


ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213



Os am daci neu fws mini

CAMBRIAN
CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292



I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn

Cig Ffres i'r Rhewgell, Seliig Carref
Ōen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

BETHESDA TYNANT

Blwyddyn arall wedi mynd ar capel yn dal ar agor. Wrth glywed am y cynulleidfaoedd yn cilio o'r eglwysi ar capeli teimlwn yn fodlon a gallwn ddweud yng ngeiriau Dafydd Iwan "Yma o hyd er gwaetha pawb a phopeth".

Eleni eto cawsom groesawu ffyddloniaid i draddodi'r neges inni, a diolchwn yn fawr iddynt. Ym mis Hydref cawsom ein Cwrdd Diolchgarwch, ac eleni cawsom neges a oedd ychydig yn wahanol pan ddaeth Mr Brian Davies, cyn brifathro un o'r ysgolion lleol. Cawsom hanes ei daith dramor. Y mae Brian wedi ymweld â llawer o ardaloedd tlawd y byd, a hyfryd oedd clywed sut 'roedd y plant bach tlawd iawn yma mor ddiolchgar, ac am y wên hyfryd a hapus oedd ganddynt bob amser. Neges bwrpasol iawn i ni y Cymry rwy'n siwr. Rhaid diolch bob dydd am y bywyd o lawnder sydd gyda ni.

Unwaith eto fel arfer ym mis Gorffennaf daeth Mrs Falyri Jenkins a phlant ac aelodau ifanc ysgol Sul Bethel atom. Diolchwn i Mrs Jenkins am ei gwaith diflino yn hyfforddi'r plant yn yr Ysgol Sul ac am ei gwaith bob dydd yn yr ysgol gynradd.

Edrychwn ymlaen am 2007, a chael y fraint o gyd-addoli ym Methesda. Nadolig Llawen i chi i gyd.

Elizabeth Royle-Evans

Dymunwn adferiad buan i Elizabeth ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Mae'r Goeden a Betsan yr un oed

Pan ymddeolodd Ann a fi, rhannwyd y ddaear oeddem ni yn amaethu rhwng y bechgyn, Enoc a Dafydd. Rhannwyd y ddiadell ar fuches hefyd rhwng y ddau. O ganlyniad i hyn bu raid iddynt gadw dau darw, un i bob buches, oherwydd 'dyw buches heb darw'n dda i ddim i neb.

'Roedd yn lle addas iawn i gadw dwy fuches, oherwydd 'roedd y diweddar Alwyn Jones, Penlôn a fi wedi plannu llain gysgodi lydan yn y chwedegau, o'r ffordd i lawr i'r afon Clettwr, rhwng Gwarcwm Uchaf a Chae'r Arglwyddes, felly ni allai'r ddau darw fynd yn rhy agos at ei gilydd i ymladd. Ond 'roedd cornel oddi ar y lliadiart lle gallent fynd at ei gilydd, felly ffensiwyd darn o'r cornel i ffwrdd i'w hatal rhag mynd yn rhy agos at ei gilydd. Felly, ataliwyd yr anifeiliaid i gyd rhag mynd i bori ar y darn yma. O hynny 'mlaen cafodd byd natur berffaith rhyddid i wneud yr hyn a fynnai ar y darn tir yma.

Ymhen dwy flynedd, newidiodd y darn tir yma tu hwnt i amgyffred neb. Collwyd y meillion ar borfa iraidd oedd yno, tyfodd pob math o chwyn a drysni, ac aeth y darn yn anialwch perffaith. Rhaid cael dyn cyfrifol ac anifail i gydweithio gyda natur i gael y gorau ohoni. Os collwn y bobl ar anifeiliaid o'r ucheldir, buan iawn aiff y cyfan yn anialwch. Mae'n hen bryd i'r llywodraeth sydd gyda ni heddi sylweddoli hyn, cyn aiff yn rhy hwyr.

Yr hyn oeddwn i am ddweud oedd, yn y flwyddyn 1999 sylwais fod yna hedyn coeden onnen wedi egino yng nghanol y cyfan. Ni blannodd unrhyw un y goeden, mae'n rhaid fod yr hedyn naill ai wedi cael ei gario gan aderyn neu wedi cael ei chwythu gan y gwynt. Mae'r goeden onnen agosaf i'r fan ger tŷ Cae'r Arglwyddes, sydd hanner milltir i ffwrdd. Yn yr un flwyddyn ganwyd merch fach, Betsan, yn Nhanyrallt i Dafydd ac Ellyw. Felly mae'r goeden a Betsan yr un oed. Maent yn saith oed eleni.

Pwrpas yr ysgrif hon yw cofnodi oedran y goeden yma. Gobeithio caiff hi lonydd i dyfu yn goeden fawr, fel bod trigolion yr ardal a darllenwyr *Papur Pawb* fydd yma ymhen pum can mlynedd yn gwybod yn iawn faint fydd ei hoed. Gobeithiaf bydd rhywun yn tynnu llun ohoni bob hanner can mlynedd a'i roi yn *Papur Pawb*. Mae Betsan wedi addo tynnu'r llun yn y flwyddyn 2050,

os byw ac iach, a gofalu bod rhywun yn ei dynnu yn y flwyddyn 2100, gan obeithio y bydd rhywun yn cario 'mlaen tra bydd y goeden yn tyfu.

G.J.

AR WERTH

Renault Clio
Authentique 1.2 (2001)
Ar y cloch 39,500
MOT Mai 2007
Cynigion £2,800
CYFLWR ARBENNIG O DDA
Ffôn 01970 832725



Cymdeithas Defaid Mynydd

Pnawn Llun, 30 Hydref oedd dyddiad cychwyn arbrawf wŷn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 13 o aelodau a 26 o wŷn hyrddod i'r Prawf a bydd rhain yn cyd-bori ar borfa yn unig ar fferm Trawsgoed tan mis Ebrill.

Mae Tarian Rhosgoch yn cael ei rhoi i'r oen hwrdd mwyaf addawol ar aelodau sydd yn cymryd rhan yn fotio 3 phwynt i'r gorau, dau i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Dafydd Jenkins, Tanyrallt ennill y Darian ac un Teulu Williams, Pensarn yn ail. Llongyfarchiadau i'r ddau fridiwr.

Bydd yr wŷn yn cael eu pwyso efo Dewi Hughes, Hybu Cig Cymru ar y 10 Rhagfyr, 20 Ionawr, 1 Mawrth ac ar ddiwedd y Prawf. Hefyd bydd tri bridiwr yn mynd i archwilio'r hyrddod bob tro y byddant yn cael eu pwyso.

Mae y Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i reolwr Trawsgoed am roddi cae addas i'r Prawf yma. Cewch yr hanes ym *Mhapur Pawb* ym mis Mai.

Gareth Evans

THEATR BARA CAWS

Perfformir

'Actus Reus'

gan Valmai Jones
nos Fercher 13 Rhagfyr am
7.30
yn Neuadd Goffa Talybont

Comedi i'r teulu yw hon, ac yn addas i bob oed.

*Cysylltwch â Falyri Jenkins
(832560) am fanylion.*

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwastl gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Lluc-Guener
(01970) 832 674

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant Iawn;
Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282624 / 07773978352

**Gwasanaeth Scania
ARTHUR MORGAN**
Pencfefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarsage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

C.F.F.I. TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cawsom noson dra gwahanol nos Fawrth 10 Hydref pan gafwyd cyfle i wyllo amrywiaeth o ffilmiau – hen ffilmiau di-sain, ffilmiau modern a hyd yn oed cartwns o ddechrau'r ganrif ddiwethaf hyd at heddiw. Canran fechan o ffilmiau oedd y rhain o gasgliad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol yng Nghapel Rheoboth, Taliesin, ar nos Lun 16 Hydref. Bu rhai o'r aelodau'n cymryd rhan yn y gwasanaeth, a chafwyd anerchiad gan y Parch. Elwyn Price. Gwnaethpwyd casgliad tuag at Ymchwil Cancr, sef elusen dewisiedig mudiad C.Ff.I. trwy Gymru.

Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau i ymuno â chlwb Brynherbert mewn Sosial Fawr, a gynhaliwyd yn neuadd Llanrhystud ar nos Wener, 27 Hydref. Braf oedd gweld cynifer o glybiau yno yn mwynhau'r gêmâu a'r bwyd blasus.

Rydym bellach wrthi'n paratoi ac ymarfer tuag at Eisteddfod y Sir. Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Iau 23 Tachwedd a dydd Sadwrn 25 Tachwedd, yng Ngholeg Llanbed.

CJ

CLWB CINIO TALYBONT

**Ydych Chi'n Mwynhau Cymdeithasu,
Cael Hwyl, Cadw'n Iach, Mwynhau Bwyd Blasus?**

**Ymunwch A Ni - Clwb Cinio Talybont.
Cwrdd Unwaith Y Mis Yn Y Llew Du**

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees,
Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion,
Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LF.
Ffôn: (01970) 615151.
E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk

Llio yn ennill gwobr i artist ifanc

Tra'n gwneud cwrs sylfaen celf yng Nghaerdydd y llynedd roedd Llio James, Llannerch, Tal-y-bont, wedi ymddiddori mewn gwneud ffelt (wedi gweld ei mham yn sbwylio sawl dilledyn gwlan wrth eu golchi yn y periant !!!) Roedd un project yn cynnwys nifer o ddarnau ffelt roedd wedi eu pwytho a'u tyllu dan y thema arfordir a chychod hwylio mewn harbwr. Roedd wedi gwneud peth gwaith ymchwil wrth dynnu lluniau a darlunio ym marina Aberystwyth a Phwllheli



Yn ystod yr haf eleni fe benderfynodd dacluso a fframio pedwar darn bychan a'u rhoi i mewn i gystadleuaeth yn Oriol Plas-Glyn y Weddw ar gyfer adran artistiaid ifanc.

Dechrau mis Hydref, yn ystod ei mis cyntaf fel myfyriwr yn astudio Testilau ym Mhrifysgol Manceinion fe gafodd Llio gais taer i fynd i fynychu'r agoriad swyddogol yn Llanbedrog ac fe aeth ar y tren o Fanceinion i Fangor ac yna ymlaen i Lanbedrog gyda mam a dad oedd wedi dod yno i'w hebrwng.

Teimlad o synod o weld ei gwaith lan ar y wal gyda dwsinau o gystadleuwyr eraill. Mae'r Plas yn hardd ac mewn llecyn godidog gyda sawl ystafell ynddo yn llawn o weithiau celf artistiaid enwog. Sioc mawr o glywed ei henw'n cael ei alw fel enillydd yn adran yr artist ifanc a chais iddi fynd i gasglu gwobr hael o £750.00 o law Aelod Cynlliad Arfon Alun Ffred Jones.

Mae'r pedwar llun ar werth!! Mae'r arddangosfa ar agor tan y Nadolig.



Clwb Gwawr y Pennau

Ar 1 Tachwedd aeth criw o aelodau Clwb Gwawr y Pennau i ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cafodd y merched eu tywys o gwmpas yr adeilad gan ddysgu tipyn am hanes y lle a'r casgliadau ar y daith. Uchafbwyntiau'r noson oedd gweld arddangosfa "Cadw Cartref" a thrysorau'r genedl yn Ystafell Hengwrt - ac, wrth gwrs, roedd rhaid gwario yn siop y Llyfrgell cyn gadael! Diolch i Delyth Ifan am drefnu'r noson ac i Sion Jobbins am arwain y merched o gwmpas.

Cynhelir Cinio Nadolig y Clwb yn nhafarn Tynllidiart ar nos Wener 1 Rhagfyr. Croeso i unrhyw un ymuno â ni. MM

PLAID CYMRU, CANGEN TALYBONT

'O blaid y Gymraeg: Adroddiad Comisiwn Polisi Iaith Plaid Cymru'

Fe'ch gwahoddir i ymuno â Dafydd Iwan, Llywydd Plaid Cymru (a Chadeirydd y Comisiwn Polisi Iaith) nos Wener 10 Tachwedd am 7 o'r gloch Neuadd Isaf, Neuadd Goffa Talybont

Cyfle i drafod y modd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr iaith Gymraeg o dan arweiniad Plaid Cymru. Cyfarfod i aelodau a chefnogwyr.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



Trebor Aled

Nos Sadwrn, 16 Rhagfyr 1905 cynhaliwyd cyfarfod cymdeithasol yn yr Hen Ysgol pan anrhegwyd dau aelod o Gôr Undebol Tal-y-bont. Cyflwynwyd tebot arian i Mrs James, Tanyrallt ar achlysur ei phriodas, ac am ei ffyddlondeb fel cyfeilyddes. Anrhegwyd yr arweinydd hefyd, sef John James Hughes (“Afon Alaw”; 1867-1949) gydag wyth o gyfrolau hardd a safonol ar gerddoriaeth fel gwerthfawrogiad o edmygedd aelodau'r côr ohono a'i gyfraniad mawr dros gyfnod maith. Yna gofynnwyd i weinidog ifanc oedd newydd ei sefydlu yng nghapel Tabernacl y Bedyddwyr ychydig ddyddiau ynghynt i annerch. Y gweinidog ifanc hwnnw oedd y Parch. Robert Jones (Trebor Aled). Roedd eisoes yn adnabyddus drwy Gymru fel bardd, llenor ac arweinydd eisteddfodau. Aeth ymlaen i ddweud ei fod “yn falch fod y côr yn rhoi gwerth ar eu gwsanaeth ac yn cydnabod eu ffyddlondeb tra byddont yn fyw.” “Y mae llawer”, meddai, “yn anrhydeddu personau ar ôl iddynt dewi, ac yn codi tmlau iddynt, pan heb weld y priodoldeb o gydnabod eu gweithgarwch pan ar y ddaear.”

Ei ddyddiau cynnar

Ganed Trebor Aled ar 4 Hydref 1866 mewn lle bach o'r enw Cae Matw, ger Betws-yn-rhos, Abergele yn un o ddeg o blant i Robert a Susannah (Hannah) Jones. Yn 1872 symudodd y teulu i dyddyn bychan unarddeg acer o'r enw Llety'r Eos yn Llansannan, hen gartref ei dad a'i deidiau ers cenedlaethau. Daeth Llety'r Eos ymhen blyneddodded yn gartref i'r diweddar Ddr Emyr Wyn Jones (“Emyr Feddyg”; 1907-1999). Roedd mam Trebor Aled yn enedigol o Eglwys-bach, Glan Conwy, ac yn ôl y sôn roedd un os nad dau o'i brodyr yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr. Bu farw'n weddol fuan ar ôl symud i Llansannan ac aeth Trebor Aled allan i weithio fel gwas bach ar fferm Cefn Treflach. Ychydig iawn o addysg ffurfiol a gafodd ac fel llawer o blant a phobl ifanc ei gyfnod bu'n rhaid iddo ddiwyllio'i hun. Yng ngwanwyn 1885 priododd â Jane Lloyd Davies, merch y Fedw-bach (neu Fedw-uchaf i roi'r enw arall arno) ym mhlwyf Llansannan. Hanai ar ochr ei mam o linach Henry Rees (1798-1869), gweinidog enwog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a'i frawd iau William Rees (“Gwilym Hiraethog”; 1802-1883), gweinidog gyda'r Annibynwyr, y ddau o Chwibren-isaf, fferm wrth droed Mynydd Hiraethog ym mhlwyf Llansannan. Ganwyd eu plentyn cyntaf Hannah Myfanwy yn Llansannan flwyddyn yn ddiweddarach, cyn iddynt symud i fyw i Dywysog, ffermdy nepell o Henllan, Dinbych. Yno bu Trebor Aled yn gweithio fel bugail defaid am rhyw ddwy flynedd ac yno y ganwyd eu hail blentyn, Goronwy Aled. Yn 1888 symudodd y teulu eto, y tro hwn i 24 Beacon's Hill, Dinbych a throdd Trebor Aled i werthu llyfrau Cymraeg i gwmni argraffu a chyhoeddi Thomas Gee (1815-1898). Yn ystod y deng mlynedd canlynol fe gerddodd gannoedd o filltiroedd yn gwerthu llyfrau o ardal i ardal, fel Dic Aberdaron (1780-1843) gynt, neu hetwyr Llangynfelyn hwythau. Wedi symud i Ddinbych, yn ôl pob sôn, y dechreuodd Trebor Aled farddoni, ond mae'n bur debyg ei fod yn hyddysg yn y cynganeddion ymhell cyn hyn gan ei fod yn cyfansoddi hir-a-thoddeidiau yn fuan iawn wedi ymgartrefu yn y dref honno. Yn 1889 ganwyd mab arall iddynt o'r enw Meredydd, oedd yn ddall o'i enedigaeth, a bu farw yn blentyn. Er nad oedd wedi ymaelodi mewn capel neilltuol yn y dref, aeth ef a'i deulu i addoli i gapel y Methodistiaid Calfinaidd ac yn 1893 dechreuodd bregethu.

Newid gyrfa

Derbyniodd Trebor Aled alwad i weinidogaethu ar eglwysi Bedyddiedig Llansannan a Llanfairtalhaearn ac ordeiniwyd ef yn Ionawr 1898, pan symudodd ef a'i deulu i fyw i Glan Aber, Llansannan. Fel pregethwr nodweddid Trebor Aled gan symlrwydd efengylaidd. Meddai ar lais dymunol, a thraddodai gyda rhwyddineb, a hynny gyda chryn lawer o ynni a gwres. Llwyddodd i weithio'i ffordd i'r weinidogaeth ac yntau dan gryn anfanteision addysg bore


oes. Yn ystod ei gyfnod yn Llansannan gweithiodd yn ddiwyd gydag eisteddfodau a chyfarfodydd lleol, a chafwyd drwy hynny gryn swm o arian at ddileu dyledion y capeli yn yr ardal. Ef oedd enaid y gweithgareddau, a bu'r cyfarfodydd yn gryn symbyliad i lenyddiaeth ar lannau'r Aled a'r Elwy. Llafuriodd yn ddyfal a chyflawnodd waith mawr a sylweddol yn Llansannan. Erbyn 1901 roedd Hannah Myfanwy yn ddisgybl-athrawes a Goronwy Aled yn gweithio fel *prentis groser* yn siop fwyd a dillad Chester House yn Llysfaen, Bae Colwyn.

Ei gyfnod yn Nhal-y-bont

Yn Nhachwedd 1905 derbyniodd Trebor Aled alwad i weinidogaethu ar eglwys y Bedyddwyr yn y Tabernacl, Tal-y-bont, a symudodd i fyw i'r Mans (neu'r Tabernacl Villa fel y gelwid ef yr adeg hynny). Yr oedd, wrth gwrs, yn adnabyddus eisoes fel bardd a llenor pan symudodd i Geredigion ac ymroddodd o ddifrif i'w swyddogaeth. Roedd cael gweinidog arall cymharol ifanc ym Methel drws nesaf, ac yntau hefyd yn hannu o'r gogledd yn gaffaeliad mawr iddo. Roedd y Parch. R. E. Jones (1859-1936) eisoes wedi ennill ei blwy yn yr ardal ac yn uchel ei barch. Bu ef a Threbor Aled yn weithgar tuhwnt gyda phobl ifanc yr ardal gan feithrin a hybu talentau. Ar 13 Rhagfyr 1907 bu farw Goronwy Aled, eu hunig fab bellach, yn Llundain yn ugain oed. Roedd wedi mynd i weithio yn un o'r siopau mawrion ac wedi ymgartrefu yno gan wneud nifer fawr o ffrindiau ymhlith Cymry ifanc y ddinas, gyda dyfodol addawol o'i flaen. Fe'i cymerwyd yn wael bythefnos ynghynt ond bu farw o'r pendics. Dygwyd ei gorff mewn hers geffylau wydr i orsaf Euston, ac oddi yno ar y tren i orsaf Glan-dyfi. Roedd ei dad wrth

erchwyn ei wely pan fu farw a hebryngodd ei gorff yn ôl ar y tren i'w gladdu ym mynwent y Bedyddwyr yn Nhal-y-bont. Bu farw Jane Lloyd Jones hithau ar 17 Mai 1914 yn 50 oed. Gwraig ddarbodus a gofalus, mam dyner,” a'i chymeriad mor bur ag eira'r mynydd.” Roedd Hannah Myfanwy wedi priodi erbyn hyn ac wedi ymsefydlu ym Maesteg, a chanddi blant ei hun. Serch hynny, roedd

treialon bywyd wedi gadael eu hól ar Trebor Aled, ac wedi afiechyd blin bu yntau farw ar 7 Ionawr 1917 yn 50 oed. Cymaint oedd ei ofal dros ei eglwys fel y glynai'n benderfynol wrth ei waith. Ni fu nemor neb ffyddlonach i'w eglwys nag ef, ac am hynny perchid ef yn fawr gan bobl yr ardal yn gyffredinol. Arwydd o'r parch mawr iddo oedd i ieuencid y Tabernacl gymryd rhan flaenllaw iawn yn ei angladd. Claddwyd yntau yn hen fynwent y Bedyddwyr yn Nhal-y-bont. Enillodd amryw o gadeiriau, pedair medal a gwobrwyon lu mewn eisteddfodau pwysig y cyfnod. Gwnaeth ddefnydd helaeth o'r wasg ar adegau er mwyn amlygu'i farn ar wahanol faterion. Cyhoeddodd hefyd nifer o lyfrau, “*Fy Lloffyn Cyntaf, sef casgliad o gynyrchion prydyddol*” (1894); “*Cofiant y Diweddar Thomas Jones, Llansannan*” (1901); “*Awdl Geraint ac Enid*” (1905); “*Pleser a Phoen, sef cyfrol o farddoniaeth yn y llon a'r lleddf*” (1908); “*Talhaiarn*” (1901, 1905, 1916) [ei ddarlith boblogaidd ar y cymeriad hynod hwnnw]. Cyhoeddodd y llyfrau ar ei draul ei hun, a chafodd lwyddiant mawr yn eu gwerthu, a hynny'n deillio, mae'n siwr, o'i brofiad helaeth o werthu llyfrau cyn mynd i'r weinidogaeth. Clywais y diweddar Huw Huws, Derwen Deg, Y Dole yn dweud ei fod yn cofio Trebor Aled yn weinidog yn y Tabernacl pan oedd ef yn blentyn.



Man Geni Syr John Rhys

Ar ôl darllen llith gynhwysfawr Hefin Llwyd am y ddadl ynglŷn â man geni John Rhys yn y rhifyn diwethaf tybiais y byddai'n briodol cyfeirio at gyfrol ddiddorol sydd yn fy meddiant. Ym 1933 croniclodd Hugh Rees, Dyfi View, Eglwys-fach, hanes ei fro mewn 381 o benillion wyth llinell. Mae'r 251 cyntaf yn sôn am 'Traddodiadau a Proffwydolaethau Eglwysfach Glandyfi', ar 130 arall yn manylu ar 'Enwau y sawl oedd yn byw yn y Ffermdai yn Plwy Sgyborcoed tua 1880', pan oedd Hugh yn 16eg oed.

Yn gweithio gyda'r Cymry
Am chydig iawn o bris.
Hon ydyw y dystiolaeth
Y diweddar "Syr John Rhys",
Un cywir am draddodiad
Fe chwiliau'n ôl mae'n rhaid,
Ym mhentref "Furnace" ganwyd
Ei ddweddar "Dad" a'i "daid".

Does weledigaeth eglur
Fan ganwyd "Syr John Rhys"
O'r farn yr wyf nas gellir
Roi ar y fan ein bys.
Mae'n wir mae yn "Monterwyd"
Nôl y cofnodiad cawn,
"Bronceiro" lle ei ganwyd
Cofnodir hyn yn llawn.

"Hugh Rees" ei Dad briododd,
O'r Ffurnace aeth y gŵr,
I fyw aeth at ei gydmar
I Ceulan draw yn siŵr.

Mae'n debyg iawn i'r bachgen
I weld ei gyntaf ddydd
Yn eglur yn Nghwm "Ceulan",
A hon yw'r farn y sydd.

Ac wedi geni'r bachgen
Ar gwaith pryd hyn yn llwm
Hwy aethant i "Bonterwyd"
Lle ydoedd gweithie plwm.
Ac yno fe gofrestrwyd
Mae yn "Bronceiro" fad,
A dyma y camsynied
Rhyw ddydd a wnaeth ei "Dad".

Bu "John" yn cadw "ysgol"
Yn "Nghapel Ceulan" wiw,
Ac yn "Rhydronen" hefyd
Yr oedd ei "Daid" yn byw.,
Yn cerdded o "Lwyngwyne"
Bob dydd o gam i gam
I'r ysgol i "Gwm Ceulan"
Y bu fy anwyl "Fam".

Er iddo gamgymryd Bronceiro am Aberceiro-fach, mae'n ddiddorol fod Hugh Rees ac yntau'n perthyn i Syr John yn dweud mai yng Nghwm Ceulan y ganed y gwron. Roedd yn hen arfer i wraig ifanc fynd i gartre'i rhieni i eni plentyn a thybed a wnaeth Jane mam John Rhys hynny? Mae Hefin yn dweud fod John ac Anne Mason yn byw yn Rhydyronnen ym 1851 a phe bai cofnodion Cyfrifiad 1841 ar gael mae'n bosibl eu bod yno bryd hynny. A bwrw i Syr John gael ei eni yng nghartre'i fam-gu a'i dad-cu yng Nghwm Ceulan mae'n debyg i'w fam ag yntau ddychwelyd i Aber-ceiro cyn i Hugh y tad gofrestru genedigaeith ei fab. Ond o gofio fod tadau wedi gwneud pethau rhyfedd wrth gofrestru efallai fod yna esboniad arall!

Er mai rhigymwr go gyffredin oedd Hugh Rees, Eglwys-fach, gwerth ei benillion carbwl yw eu bod yn cyflwyno portread difyr o blwyf Ysgubor-y-coed a'i drigolion inni. Dychwelaf atynt yn fuan.

W.J. Edwards

Lywela Morgan Evans

1914-2006

Trist yw cofnodi marwolaeth un o hen drigolion Tal-y-bont. Bu farw Lywela Morgan Evans yn ysbyty Tregaron ar y 4ydd o Fedi.

Ganed Lywela yn Adam Street, Tal-y-bont yn un o bedwar o blant i Mary Jane a Jim Griffiths. Bu farw ei mam pan oedd Lywela dim ond yn bedair oed. Roedd ei thad yn gweithio yn y glofeydd yn Ne Cymru ac felly aeth y plant i fyw at eu mam-gu a'u tad-cu ym

Mhentreachaf, Tal-y-bont. Mynychodd yr ysgol gynradd ac wedyn gweithio yn Aberystwyth ond mi ddychwelodd i Dal-y-bont i ofalu am ei thad-cu.

Ar ôl ei farwolaeth ym 1939, aeth i Firmingham lle'r oedd ei darpar ŵr, Roy, yn byw. Yn fuan iawn cafodd Roy ei alw i'r fyddin a bu'n gwasanaethu yng Ngogledd Affrica tan ddiwedd y rhyfel ym 1945 fel un o'r enwogion lygod ffrenig yr anialwch (*desert rats*).

Priododd y ddau ym Methel, Ebrill 1945 ac yna gwneud eu cartref ym Mirtingham. Buont yn gweithio yno bron i ddeugain mlynedd ond eu pleser mwyaf oedd dychwelyd a threulio penwythnosau a gwyliau yn Nhal-y-bont.

Daeth y cyfle i ymddeol ym 1981 a dod nôl i Dal-y-bont i fyw i Gaerдова. Treuliasant flynyddoedd lawer yn mwynhau bywyd Tal-y-bont a cherdded yr hen lwybrau.

Ym mlynnyddoedd olaf ei bywyd roedd yn gaeth i'r tŷ ond roedd wrth ei bodd bob prynhawn gydag ymddangosiad ei ffrindiau yn dod i'w gweld i sgwrsio a thrafod newyddion y pentref. Roedd Lywela hefyd yn edrych ymlaen at alwad y gofalwyr. Bu eu gofal yn dyner ac yn gariadus iawn ac roedd Lywela yn ddiolchgar iawn am eu caredigrwydd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladd yn yr amlosgfa ar Fedi'r 7fed yng ngofal ei gweinidog, Y Parchedig Richard Lewis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

V.J.



Elizabeth Margaret Williams

Cwmslaid, Talybont

Gyda thristwch y clywodd yr ardal am farw Mrs Elizabeth Margaret Williams, Cwmslaid, ddydd Llun 23 Hydref, a hithau o fewn ychydig ddyddiau i'w phen-blwydd yn 79 oed. Y mae dechrau'r daith yn ei hanes yn mynd a ni yn ôl i fis Hydref 1927 ac i ardal Eglwysfach. Tŷ Mawr, Eglwysfach oedd cartref y teulu ac yno y magodd Mathew ac Elizabeth Tye eu tyaid o blant, a gydag ymadawiad Margaret Williams y mae'r olaf un o blant Tŷ Mawr wedi'n gadael ni.

Gwraig ei milltir sgwâr oedd Margaret Williams heb os nac oni bai. Yma y ganed hi, yma yr aeth i'r ysgol, yma y treuliodd ei phlentyndod a'i hieuentid, yma y tyfodd i fyny, yma y bu'n gweithio, yma y priododd, yma y magodd ei theulu, yma y gofalodd am ei theulu estynedig, yma y wynebodd ei chystudd ac yma y gwelodd ddiwedd y daith. Wedi gadael yr ysgol bu'n gwasanaethu yn yr ardal am rai blynnyddoedd. Wedi cyfnod yn cynorthwyo gyda'r Post ac yn gweithio yn y Llew Du yn Nhalybont priododd William Trevor Williams, Cwmslaid, yn 1961 ac ymsefydlu yng Nghwmslaid. Ac yn ystod ei chyfnod yng Nghwmslaid daeth yn rhan annatod o'r gymdeithas wledig glos sydd mor amlwg ac mor werthfawr yn yr ardal. Cymdeithas arbennig ac unigryw sydd o hyd, ac a oedd fwy fwy felly mewn dyddiau a fu, yn dibynnu cymaint ar gyfeillgarwch, cydweithrediad a'r parodrwydd yna i gynorthwyo eu gilydd bob amser. Ac oddi fewn i'r

gymdeithas arbennig hon fe fu Margaret Williams yn hollol fodlon ei byd fel brenhines ar aelwyd Cwmslaid; yn wraig, yn fam, yn wraig tŷ ac yn ddiweddarach yn nain a hen nain yn llawn amser. Rhoddodd yn helaeth o'i stôr o gariad a gofal i'w theulu ac i'w chydnebod. Yn wir yr oedd yn "nain" i gylch llawer ehangach na dim ond ei theulu ei hun fel y mae aml i deulu yn yr ardal yn medru tystio o brofiad ac roedd yna groeso bob amser ar aelwyd Cwmslaid.

Profedigaeth lem i Margaret Williams a'r teulu cyfan oedd colli Trevor Williams ym mis Ionawr 2002 ac yntau'n gymaint o gymeriad. Ond trwy'r cyfan daliodd ati i fod yn angor ac yn noddfa i'r teulu er nad oedd ei hiechyd hithau'n gant y cant, gan ddangos yn glir yr ymroddiad llwyr hwnnw i'w theulu oedd mor nodweddiadol ohonni. Wrth gofio am Margaret Williams yr ydym hefyd yn cofio am Jean, Ann ac Alun a'u teuluoedd ac yn cydymdeimlo'n ddiffuant a hwy yn eu profedigaeth, eu hiraeth a'u galar.

Richard Lewis



Papur Pawb 25 Mlynedd yn ôl

Rhai pytiau wedi eu dethol o rifyn Tachwedd 1981



GWARCHOD CORS FOCHNO

'Mae yna bethau rhyfedd yn byw ac yn marw,
Ni ddaw neb i chwilio amdanynt ond y daeargwyr a'r llystieuydd'

Dyma sut y disgrifiwyd Cors Fochno gan y bardd W. J. Gruffydd yn ei gan "Gwrach Cors Fochno". Erbyn heddiw mae'r daeargwyr a'r llystieuydd wedi ymgymryd a'r gwaith o warchod y Gors bron yn ei chyfarwydd oherwydd yr wythnos diwethaf cyhoeddwyd fod 824 erw o'r gors wedi ei hychwanegu at Warchodfa Natur Dyfi. Mae'r Gors yn gyfrotiog o anifelliaid gwylt, blodau a llystiau prin a phob math o bryfed, sydd o ddiddordeb mawr i naturiaethwyr, ac nid syndod felly oedd clywed i'r Warchodfa, sy'n cynnwys 5095 erw erbyn hyn, brynu'r tir hwn.

Nod y Warchodfa yw sierchau fod y Gors yn cadw ei chymeriad gan ei diogelu rhag effaith niweidiol ffosydd cyfagos a pheryglon cyffredinol megis tanau.

Yn ei erthygl yn y gyfres "Awyr Agored" yn rhifyn diwethaf o'r papur dangosodd Robin Bovey, Warden y Warchodfa, ei fod yn ystyried y Gors yn le unigryw ac, wrth gwrs, 'roedd wrth ei fodd â'r newyddion. Dywedodd wrth y papur:

"Er i mi ddod i weithio i Warchodfa Natur Dyfi saith mlynedd

yn ôl, a gweithio yn nhwnt Ynyslas a ger aber yr afon Dyfi, yng Nghors Fochno y bu fy middordeb pennaf o'r cychwyn. 'Does fawr o leuedd ar ôl ym Mhrydain lle y bo modd cerdded ar hyd tiroedd mor hynafol a gweld byd natur ar ei orau, ac y mae cyfle i edrych ar ôl y Gors yn her i mi.

Mae ehangu'r warchodfa yn newyddion da nid yn unig i mi ond hefyd i baw sydd a diddordeb mewn diogelu cefn gwlad. Serch hynny, ni ddylem fod yn ymfodddhaus, oherwydd mae yna lawer o waith eto i'w gyflawni."

Mae'n siwr fod darllenwyr Papur Pawb yn barod bob amser i gydweithredu a'r Warchodfa, ond erys un cwestiwn hollbwysig. Beth am Hen Wraich y Gors? Pwy sy'n ei gwarchod hi? Mae'n debyg fod ein cartwnydd â'r ateb, - ys dywed y bardd:

'Ys Hen Wraich hys'r Gors, bob modfedd chon.
Hi hys'r awd'r a'r sbet
Y fawodan a'r llyffant,
A'r llygoden ddor.'



Clwb Ieuencid Tal-y-bont

Yn ystod y mis rydym wedi clywed ystadegau digon digalon a gwael am ein pobl ifanc. Rhaid cofio mai adlewyrchiad o'n cymdeithas a'n bywydau ni bob un ydy hyn.

Mae trawsdoriad eang o bobl ifanc brwd, swllyd, hy a hwyliog yn mynychu Clwb Ieuencid Tal-y-bont bob nos Wener ar hyn o bryd. Gall eu harweinwyr hefyd gael eu disgrifio mewn termau digon tebyg Dai Nutting, Gerwyn Jones a Catrin Mason.

Cais am gymorth ydy hwn i unrhyw un sy'n teimlo'n ifanc eu hysbyryd i gynorthwyo yn y Neuadd bob hyn a hyn ar nosweithiau Gwener rhwng 7 a 9 o'r gloch. Na, dydy hi ddim wastad yn hawdd. Cadw trefn, cadw diddordeb ac ennyn sgwrs. Mae'n cymryd amser i greu perthynas gyda'r bobl ifanc yma. Serch eu hymddygiad stwrlllyd ar adegau arwydd o ansicrwydd a gorchudd llencyndod yw hwn yn aml.

D'yw'r arweinyddion presennol ddim wedi troi eu cefnau ar ein pobl ifanc. Ydych chi? Rhowch dro arni a dewch lawr unrhyw nos Wener am sgwrs i weld y sefyllfa drosoch eich hunain. Neu mae croeso i chi ffonio Gerwyn 832203, Catrin 832075, Dai 832027 neu Medi 832725 am sgwrs pellach.

Y Llwynog Glas

Bu Gerallt Pennant yn trafod llythyr Trefor Jones, Cwmcae ar raglen radio fore Sadwrn yn ddiweddar. Bu Iolo Williams yn sgwrsio am y llwynog glas hynod a welodd Trefor ar un o gaeau Cwmcae. Mae'n debyg fod y llwynog yr un lliw yn union a chi defaid glas a bod ganddo hanner cynffon wen a choes ôl chwith ddu ond ei gorff yn las i gyd ac eithrio hynny. "Mae Llwynog glas yn anifail prin iawn ond gwelir ambell un o dro i dro" meddai Iolo Williams.

Y Calan Gaeaf mwya brawychus erioed i blant Cymru...

Ar gyfer dathliadau Calan gaeaf eleni, cyhoeddwyd yr hyn a ddisgrifiwyd fel y llyfr Cymraeg mwya brawychus erioed i blant gan yr awdur ar arlunydd o Dalybont Morgan Tomos.

Cyhoeddir Ar Noson Calan Gaeaf Oer gan Y Lolfa - mae'n llyfr hollol wreiddiol gyda chelf a cherddi trawiadol yr awdur Morgan Tomos sydd hefyd yn gweithio fel Rheolwr Gwerthiant yn Y Lolfa.




Lansiwyd y gyfrol yn Ysgol Gymunedol Talybont. Yn ystod y lansiad cynhaliodd Morgan weithdy gwneud masgiau a modelau clai. Yn y llun mae Morgan yn dal copi o Ar Noson Calan Gaeaf Oer, ac mae Richard Bailey, un o ddisgyblion yr ysgol yn dal model glai a gafodd ei greu ganddo yn y Lansiad.

Ar Noson Calan Gaeaf Oer gan Morgan Tomos, £2.95

Awdur Lleol

Person lleol arall sydd wedi cyhoeddi llyfr yn ddiweddar yw Delyth Ifan, Llys Alaw. Mae Delyth yn olygydd yn y Ganolfan Astudiaeth Addysg yn Aberystwyth, ac er ei bod hi wedi golygu nifer o lyfrau i ddisgyblion ysgol, hwn yw'r tro cyntaf iddi ysgrifennu llyfr ffuglen i bobl ifanc. Stori ar ffurf dyddiadur yw 'Sbrowts a Sbageti'.

Mae'n stori llawn hiwmor am ferch fferm yn eu harddegau yn penderfynu mynd yn llystieuwraig, ond, heb ddatgelu gormod, 'd yw e ddim yn para'n hir! Er mai ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau cynnar yr ysgrifennwyd y llyfr, mae'n siwr y bydd unrhyw un sy'n adnabod Delyth hefyd yn mwynhau'r stori.



Sefydliad Y Merched Tal-Y-Bont

Eleni mae cangen Sefydliad y Merched, Tal-y-bont yn dathlu ei phenblwydd yn naw deg oed felly, i ddathlu aeth naw aelod a thair gwestai allan i ginio canol dydd ar y 12fed o Hydref i Blas Antaron, Aberystwyth. Yr oedd Polly Morgan, Cadeirydd Ffederasiwn



Ceredigion wedi ymuno â ni. Yr oeddem yn falch bod dwy cynlywydd, Enid James ac Ann Taylor wedi ymuno â ni yr holl ffordd o'r Trallwng a Chaergrawnt. Yn y naw deg mlynedd o fodolaeth mae na un ar ddeg llywydd wedi bod, y cyntaf oedd Mrs Clifford Brown o Blas Penpompren.

Dywedodd Polly air neu ddau am gyfraniad Sefydliad Tal-y-bont i'r Ffederasiwn ac i'r gymuned a hefyd am yr amrywiaeth o sgiliau sy'n gysylltiedig. Fe'n hatgoffwyd mai yn Nhal-y-bont y ffurfiwyd y Sefydliad cyntaf yn y sir ac yn wir rydym yn maentumio mai ni yw'r ail hynaf ym Mhrydain Fawr. Cynigiwyd llwnc destun i bawb o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Myrtle Parker oedd wedi gwneud y gacen dathlu a cytunodd pawb ein bod ni wedi cyrraedd carreg filltir gyda rhywbeth i fod yn falch ohono.

Ar 26ain o Hydref cawsom ein cyfarfod blynyddol a Swper y Cynhaef yn Ger-y-Plas, Tal-y-bont. Yr un fydd swyddogion 2007 a'r llynedd – Llywydd: Sheila Talbot; Ysgrifenyddes: Juliet Trudgill; Trysorydd: Barbara Gardener; Ysgrifenyddes y Rhaglen: Myrtle Parker.

Mae croeso i aelodau newydd bob amser.

Sheila Talbot

Sefydliad Y Merched Eglwysfach

Daeth Delyth Morgan o Ecodyfi, Machynlleth i siarad â ni am Biosffer Dyffryn Dyfi. Mi roedd e'n ddiddorol i glywed sut y byddai'n ein heffeithio ni, y manteision a'r anfanteision. Hefyd dysgom ble mae'r safleoedd UNESCO eraill yn y byd.



Yn y llun fe welir bobl ifanc Kaya ac ardal Aberystwyth ynghyd a Maer Yosano, Atsumi Ohta yn rhoi blodau ar fedd Frank Evans

Cyfeillion o Kaya

Cafwyd gwasanaeth i'w gofio yng nghapel Bethel Tal-y-bont ddydd Sul olaf Hydref wrth i chwech o bobl ifanc o ardal Kaya yn Japan ymuno ag aelodau i dderbyn croeso twymgalon. Yn gwmni i'r plant roedd tri o oedolion gan gynnwys Maer Yosano (sydd bellach yn cynnwys Kaya) a nifer o swyddogion a chefnogwyr Cymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth-Kaya.

Sefydlwyd y Gymdeithas gan y diweddar Frank Evans, un â chysylltiad agos â Thal-y-bont. Er iddo fod yn garcharor rhyfel yn Japan roedd ei awydd i faddau ac i godi pontydd rhwng y ddwy wlad wedi arwain at sefydlu'r Gymdeithas. Y llynedd aeth 6 disgybl o Ysgolion Penglais a Phenweddig ar daith i Kaya ac eleni tro pobl Japan oedd dod i Gymru. Roedd un, Mitzue Noguchi yn aros gyda Hedydd ac Eurgain Phylip yn Nhal-y-bont ac wedi cael wythnos o fwynhau croeso'r fro.

Rhan bwysig o'r daith yw ymweld â bedd Mr Frank Evans ym mynwent gyhoeddus Tal-y-bont, ac yn dilyn seremoni fechan o osod blodau ar y bedd fe ymunodd y criw ag aelodau Bethel. Cyn i'r ymwelwyr gyrraedd roedd Mr Goronwy Jones wedi trefnu oedfa hyfryd gyda chyfraniadau gan amryw o aelodau yn dewis eu hoff emynau a darlleniadau, gyda Goronwy yntau yn arwain ac yn rhoi anerchiad. I gloi'r gwasanaeth roedd Mrs Falyri Jenkins wedi trefnu pedair eitem gan blant yr Ysgol Sul i gyfarch ein cyfeillion o Japan. Roedd disgleirdeb y perfformiadau a chroeso cynnes y plant wedi gadael argraff ddofn ar yr ymwelwyr.

PhD

Gwersi Cynganeddu a Chymdeithas Farddol

bob YN AIL nos Fercher am 8pm
yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont

i ddechrau nos Fercher, 8 Tachwedd
CROESO I DDECHREUWYR A BEIRDD PROFIADOL

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gwenallt ar 832370



Clwb Nos Wener: Atyniad Arbennig
CARYL GLYN A'R BAND
8.30 Nos Wener, Tachwedd 24
yn y Llew Du, Talybont
mynediad £4 – croeso i bawb!

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

CHWARAEON

Dechrau Addawol

Mae chwaraewr-rheolwr tîm pêl-droed Tal-y-bont, Anthony Southgate, yn fodlon iawn a pherfformiad ei dîm yn ystod wythnosau cyntaf y tymor. Mewn cyfweiliad ecsclusif â gohebydd chwaraeon *Papur Pawb*, cyfaddefodd nad oedd yn or-hyderus ar ddechrau'r tymor oherwydd diffyg profiad llawer o'r chwaraewyr ond mae wedi cael siom ar yr ochr orau hyd yn hyn.

Dyrchafwyd y tîm yn ôl i Adran Gyntaf Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch wedi treulio un tymor yn unig yn yr ail adran ond gyda'r tîm yn cynnwys nifer o fechgyn ifanc iawn roedd chwarae yn erbyn pêl-droedwyr profiadol yn dipyn o sialens eleni. Llwyddwyd i arwyddo dau chwaraewr newydd ar gyfer y tymor sef Siriol Evans a Mickey Bailey ond ar wahân i'r ddau yma, cadwyd ffydd â gweddill carfan 2005-6. Bron y gellid disgrifio Jamie Barron, Dylan Lewis, James Fox a Todd Penfold fel hen bennau erbyn hyn cymaint fuodd eu datblygiad yn ystod y ddau tymor diwethaf ac y mae Robbie Southgate, Steve Evans a Sam Penfold wedi dangos aeddfedrwydd anhygoel er eu bod yn parhau i fod yn ifanc iawn i chwarae ar y lefel hwn. Dibynnâ'r tîm hefyd ar brofiad y gôl-geidwad, Mark Davies, Mark Richards a'r rheolwr ei hun, a buddiol hefyd yw medru galw am eilyddion o'r ail dîm a ail-sefydlwyd ar gyfer y tymor hwn.

Yn ôl Anthony, prif nod y clwb ar gyfer y tymor hwn yw cadw'i le yn yr Adran Gyntaf, gan ymgyrhau ar gyfer y tymorau sydd i ddod. Ar hyn o bryd mae gan Dal-y-bont ddeg pwynt o'r naw gêm a chwaraewyd yn y gynghrair hyd yn hyn – sefyllfa boddhaol o dan yr amgylchiadau. Mae'r tîm eisoes wedi curo Llanilar, Dolgellau ac Eilyddion Penrhynoch a chwarae gêm gyfartal yn erbyn Aberdyfi. Roedd y gêm yn Nolgellau yn dipyn o ornest. Ar un adeg roedd y tîm cartref ar y blaen o 3-0 ond tarodd Tal-y-bont yn ôl ac enill gêm gyffrous o 5 i 4, gyda goliau gan Anthony Southgate, Mark Kent, Todd Penfold, James Fox a Hutchins. Gwell peidio sôn am y canlyniadau gwael yn y Bont na Phenparcau ond, yn ôl Anthony, dangosodd y tîm grym gymeriad wedi hynny wrth guro Eilyddion Penrhynoch o dair gôl i ddwy, gyda James Fox (2) a Dylan Lewis yn rhwydo. Bydd y gêm nesaf, gartref yn erbyn Padarn Utd., yn bwysig i'r clwb gan y bydd cyfle i greu gofod rhwng Tal-y-bont a'r timau sydd ar waelodion yr Adran.

Chwaraewyd sawl gêm gwpan yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yng Nghwpan Ceredigion curwyd Ffostrasol o chwe gôl i ddwy gyda Todd Penfold yn sgorio tair, ei frawd Sam yn sgorio un, a Jamie Barron a Dylan Lewis yn rhwydo'r ddwy arall. Yn anffodus collwyd yn y rownd ganlynol o 2-1 yn Aberaeron gyda Jamie Barron yn sgorio unig gôl Tal-y-bont. Yng Nghwpan Emrys Morgan roedd gêm anodd yn disgwyl y tîm ar ddydd Sadwrn cyntaf Tachwedd bant yn Bishop's Castle, clwb o Bowys sydd heb golli yr un gêm y tymor hwn. Gyda'r sgôr yn un i ddim i'r tîm cartref, roedd Tal-y-bont o fewn dîm i unioni'r sgôr ar ddau achlysur ond arbedwyd yr ergydion yn wych gan y gôl-geidwad. Yn hwyr yn y gêm sgoriodd Bishop's Castle ddwy gôl arall i selio'r fuddugoliaeth ond roedd Anthony yn fodlon iawn â pherfformiad ei dîm.

Byddwn yn talu sylw eto i orchestion Tal-y-bont yn ystod y rhifynnau nesaf o'r papur heb anghofio ymdrechion yr ail dîm i godi o waelodion yr ail adran.



Disgleirio yn Nghaerdydd

Un o bêl-droedwyr mwyaf addawol yr ardal yw Josh Abbot sydd ym mlwyddyn 5 yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ond sydd wedi ei ddewis i chwarae i dîm Aberystwyth. Dyma adroddiad Josh o'i brofiadau diweddar:

"Fy enw i yw Josh. Rydw i yn byw yn Ty Hen, Tal-y-bont. Roeddwn i wedi mynd i Gaerdydd i chwarae mewn cystadleuaeth pêl-droed ar 30 Hydref. Rydw i'n chwarae i dîm pêl-droed cynradd, Aberystwyth United.

Roedd y tîm wedi ennill pob gêm. Roedd pob tîm arall yn dod o ysgolion eraill yng Nghymru. Rydw i yn chwarae yn midfield. Rhif 7 ydw i. Roeddwn i wedi sgorio un gôl."



Pêl-droedwyr ifanc

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf o *Papur Pawb* at y sefydlu Clwb Pêl-droed Ieuenticid Tal-y-bont ac at y naw tîm sydd yn chwarae yn y cynghreiriau lleol. Rhoddwyd hanes rhai o'r timau y tro diwethaf a'r oedolion sy'n rhoi o'i hamser i drefnu'r timau.

Y tro hwn rhaid canmol Keith Hughes sy'n rheoli'r Teirw sydd yn chwarae yn adran gyntaf y cynghrair – tipyn o gamp gan fod cymaint o'r bechgyn yn chwarae yn adrannau 3 a 4 y tymor diwethaf. Karen Evans sy'n rheoli Merched Tal-y-bont sy'n chwarae yn yr Ail Adran a dechreuwyd y tymor gyda buddugoliaeth dda.

Wendy Jones sy'n rheoli'r Teriyr's sy'n cynnwys bechgyn sydd newydd ddechrau chwarae'r gêm. Enillwyd y gêm gyntaf o bum gôl i un yn adran 3 o'r Cynghrair.

Rheolwr y Tarannau, sy'n chwarae yn adran 4, yw Brian Richards ac er i'r bechgyn golli eu dwy gêm gyntaf roedd arwyddion o dipyn gwell i ddod.

B.R.

Mae *Papur Pawb* yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos



CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellinwrec'h, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HL
01970 632760

AM EICH HOLL
ANGHENION BRODWAITH,
CROESBWYTH A
THAPESTRIAU

GALWCH YN
**PWYTHAU'R
SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU
RHYDYPENNAU, BOW
STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122